# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Mercher,**

**11 Tachwedd 2015**

**Amser: 09.17 - 12.17**

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Darren Millar AC<br>Lynne Neagle AC<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Bil Cymru drafft: trafod effaith y Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

2.1 Trafododd y Pwyllgor effaith Bil Cymru drafft ar gymhwysedd deddfwriaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gyfrannu at ei waith craffu cyffredinol ar Fil Cymru drafft, ac i anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Prif Weinidog a'r Llywydd.

## 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Cytunodd y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft eto yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2015.

3.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(ii), pleidleisiodd y Pwyllgor ar y cynnig a ganlyn, a gynigiwyd gan Darren Millar AC gyda chefnogaeth Alun Davies AC, ac fe'i derbyniwyd gan y Cadeirydd heb rybudd yn unol â Rheol Sefydlog 17.44:

Bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd ar gasgliadau ei drafodaeth Cyfnod 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Dyma ganlyniad y bleidlais:

| O blaid | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Alun Davies<br>Altaf Hussain<br>Elin Jones | John Griffiths<br>Lynne Neagle<br>Gwyn Price | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Darren Millar<br>Lindsay Whittle<br>Kirsty Williams | David Rees | |
| 6 | 4 | 0 |
| **Derbyniwyd y cynnig.** | | |

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Cofnodion y cyfarfod ar 5 Tachwedd 2015

4.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 4.2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.